Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

10 Tachwedd 2018 - 30 Ionawr 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

10 Tachwedd 2018 - 30 Ionawr 2019

**Awduron:**
Elfyn Henderson, Francesca Howorth, Katy Orford, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Robert Byrne a Siân Davies

Mae Senedd Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Robert Byrne gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, a alluogodd i'r adroddiad monitro hwn gael ei gwblhau.

**Trosolwg o'r papur:**
Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae Senedd Ymchwil wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n darparu diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ........ 2**

**3. Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ........ 6**

**4. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ........ 9**

**5. Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban ........ 13**

**6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ........ 14**

**7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol ........ 17**

**8. Camau gweithredu eraill gan ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig ........ 19**

**9. Camau gweithredu eraill ........ 23**

**10. Ffynonellau allweddol eraill ........ 24**

**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad** ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 10 Tachwedd 2018 tan 30 Ionawr 2019. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 15 Medi a 9 Tachwedd 2018.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a datblygiadau o fewn y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd;
- Llywodraethau a deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig; ac
- Yn darparu ffynonellau eraill o wybodaeth allweddol.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, gweler **Adroddiadau Monitro cyffredinol Brexit a Diweddariadau Brexit** Senedd Ymchwil, sydd wedi eu paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad. Gellir dod o hyd i wybodaeth hefyd ar dudalennau gwe y **Cynulliad a Brexit.**

# 2. Trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

Ar 14 Tachwedd, cyrhaeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn Ewropeaidd gytundeb ar **Gytundeb Ymadael Drafft.** Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Theresa May, fod Cabinet y Deyrnas Unedig wedi cytuno ar y drafft a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol cysylltiedig ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Ar 25 Tachwedd, cymeradwyodd arweinwyr 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd y **Cytundeb Ymadael Drafft a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol** mewn uwchgynhadledd arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Cytundeb Ymadael Drafft a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol yn **Adroddiad Monitro Trafodaethau Brexit** Senedd Ymchwil a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr.

Mae'r Cytundeb Ymadael Drafft yn cynnwys cymal os metha popeth arall (y 'backstop') - cytundeb i sicrhau nad oes ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Byddai hyn yn sefydlu Tiriogaeth Tollau Sengl rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd os na chytunir ar gytundeb masnachu newydd cyn diwedd y cyfnod pontio a nodir yn y Cytundeb Ymadael Drafft, ac os bydd y Deyrnas Unedig yn dewis peidio ag ymestyn y cyfnod pontio erbyn 1 Gorffennaf 2020. Byddai hefyd yn alinio Gogledd Iwerddon yn llawer agosach at reoliadau'r Undeb Ewropeaidd.

Ar 19 Rhagfyr cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **gynllun gweithredu wrth gefn pe na bai cytundeb** ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys tollau ac allforio nwyddau a pholisi hinsawdd.

Ar 15 Ionawr, cynhaliwyd y **'bleidlais ystyrlon'** ar y Cytundeb Ymadael Drafft yn Nhŷ'r Cyffredin. Trechwyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gydag Aelodau Seneddol yn pleidleisio o 432 i 202 yn erbyn y Cytundeb Ymadael Drafft.

Yn sgil y ffaith fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cael ei threchu, fe wnaeth Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Jean-Claude Juncker, **ddatganiad ar y bleidlais ystyrlon.** Siaradodd yr Is-Lywydd Cyntaf, Frans Timmermans, a'r Prif Drafodwr, Michel Barnier, **yn Senedd Ewrop**. Trafodir y digwyddiadau gwleidyddol a ddilynodd hynny yn **Adroddiad Monitro Trafodaethau Brexit** Senedd Ymchwil ar 22 Ionawr.





Ar 29 Ionawr, fe wnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yna cafwyd ddadl.** Pleidleisiodd y Tŷ ar y cynnig: 'gwrthodir y syniad o'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb Gytundeb Ymadael a Fframwaith ar gyfer y Berthynas yn y Dyfodol, ac mae'n ofynnol i gymal os metha popeth arall Gogledd Iwerddon gael ei ddisodli gan drefniadau amgen i osgoi ffin galed; cefnogir ymadael â›r Undeb Ewropeaidd â chytundeb, ac felly byddid yn cefnogi'r Cytundeb Ymadael yn amodol ar y newid hwn'. Dywedodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 'ceisio cael newidiadau cyfreithiol rwymedig i'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â phryderon am y cymal os metha popeth arall, gan sicrhau nad yw ffin galed yn dychwelyd rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon'.

Yn Senedd Ewrop ar 30 Ionawr, **siaradodd y Llywydd Juncker a Michel Barnier am y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin,** gan ddweud 'Mae'r cymal os metha popeth arall yn rhan annatod o'r Cytundeb Ymadael, ac ni chaiff ei aildrafod'; cyfeiriwyd at y cytundeb rhwng llywodraethau 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y Cytundeb Ymadael (gan gynnwys y cymal os metha popeth arall) ym mis Tachwedd; gan orffen drwy ddweud bod 'yr Undeb Ewropeaidd yn barod ... i fod yn fwy uchelgeisiol ac i ail-greu natur a dwyster ein perthynas economaidd yn y dyfodol'.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Mae'r Cytundeb Ymadael Drafft yn cynnwys y goblygiadau a ganlyn ar gyfer amaethyddiaeth a bwyd:

- Byddai'r Deyrnas Unedig yn gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- Gallai'r Deyrnas Unedig ofyn am estyniad i'r cyfnod pontio.
- Yn ystod y cyfnod pontio, gallai'r Deyrnas Unedig 'gymryd camau i baratoi a sefydlu trefniadau rhyngwladol newydd ar ei phen ei hun'. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben y bydd cytundebau o'r fath yn cael eu gweithredu, oni bai bod yr Undeb Ewropeaidd yn cytuno fel arall.
- Nodwyd yn y Datganiad Gwleidyddol y dylai'r ddwy ochr anelu at sicrhau cytundeb masnach rydd pellgyrhaeddol sy'n cynnal cyfle teg, gan cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys safonau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd.

- Pe bai'r cymal os metha popeth arall yn cael ei weithredu, ni fyddai gwiriadau na rheolaethau newydd ar nwyddau sy'n croesi'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, ond bydd gwiriadau ar nwyddau sy'n dod o weddill y Deyrnas Unedig i Ogledd Iwerddon.
- Amlinellwyd yn y Cytundeb Ymadael Drafft y bydd cynhyrchion bwyd a diod o Gymru sy'n cael eu gwarchod gan **Ddangosyddion Daearyddol** yn cael yr un warchodaeth yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnal y warchodaeth bresennol yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Ynni a newid yn yr hinsawdd

Nodir yn y Datganiad Gwleidyddol y dylai'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ystyried cydweithredu ar brisio carbon drwy gysylltu system masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr cenedlaethol y Deyrnas Unedig â systemau masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. O ran newid yn yr hinsawdd, nodir yn y Datganiad Gwleidyddol y dylai'r berthynas yn y dyfodol ailddatgan yr ymrwymiadau y mae'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig wedi eu gwneud i addewidion newid yn yr hinsawdd rhyngwladol, fel Cytundeb Paris.

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ragor o **hysbysiadau parodrwydd ar gyfer Brexit:**

- **Allyriadau $CO_2$ modurol** (PDF 129KB)
- **Adrodd ar allyriadau $CO_2$ mewn trafnidiaeth arforol** (PDF 232KB)
- **System masnachu allyriadau** (PDF 157KB)

## Pysgodfeydd

Ar gyfer pysgodfeydd, dywedir yn y Cytundeb Ymadael Drafft na fydd cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth yn cael eu cwmpasu gan unrhyw drefniant tollau dros dro yn dilyn y cyfnod pontio 'oni bai bod cytundeb ar fynediad at ddyfroedd a chyfleoedd pysgota yn berthnasol'. Bydd trefniadau ar bysgodfeydd yn cael eu trafod fel rhan o'r bartneriaeth gyffredinol yn y dyfodol, gyda'r ddwy ochr yn anelu at ddod i gytundeb erbyn 1 Gorffennaf 2020.

## Gwarchod natur

Byddai'r cymal os metha popeth arall yn ymrwymo'r Deyrnas Unedig i gynnal safonau amgylcheddol ar yr un lefel â rheoliadau a phrosesau'r Undeb Ewropeaidd – fel y byddant ar ddiwedd y cyfnod pontio.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Os gweithredir y cymal os metha popeth arall, byddai'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig weithredu 'system dryloyw' ar gyfer monitro, adrodd, goruchwylio a gorfodi ei dyletswyddau ar lefel ddomestig o dan y cytundeb ymadael 'drwy gorff neu gyrff annibynnol sydd â digon o adnoddau', o dan y testun drafft.

Nodwyd yn **Adroddiad ENDS** (erthygl y tu ôl i fur talu) nad yw'r cytundeb yn sôn am gynhyrchion glanweithiol a ffytoiechydol, 'gan adael y posibilrwydd y gallai'r Deyrnas Unedig ostwng safonau bwyd os daw'r cymal os metha popeth arall i rym'.

# 3. Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 5 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **gytundeb newydd i allforio cig defaid o Brydain i India.**

Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fwy na **£2 biliwn mewn cyllid ychwanegol ar draws adrannau'r llywodraeth ar gyfer 2019-20 i baratoi ar gyfer senario dim cytundeb.** Mae hyn yn cynnwys £410 miliwn ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i sicrhau 'masnach ddi-dor' mewn cynhyrchion bwyd-amaeth a physgodfeydd, a £375 miliwn ar gyfer Cyllid a Thollau EM i gyflogi staff ychwanegol ar gyfer rhagor o weithgarwch tollau. Y canlyniad Barnett i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r gwariant hwn yw £31 miliwn.

Ar 19 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bedwar hysbysiad dim cytundeb wedi eu diweddaru yn ymwneud â'r sector bwyd:

- **Cynhyrchu a labelu bwyd os na cheir cytundeb Brexit;**
- **Cynhyrchu a phrosesu bwyd organig os na cheir cytundeb Brexit;**
- **Diogelu enwau bwyd a diodydd daearyddol os na cheir cytundeb Brexit; a**
- **Mewnforio bwyd a phorthiant anifeiliaid risg uchel os na cheir cytundeb Brexit.**

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ddiweddariad ar ei pharatoadau ar gyfer senario dim cytundeb.**

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig pwy yw **aelodau'r panel ar gyfer adolygiad annibynnol o 'arian teg' i ffermwyr** yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon hyd at 2022. Bydd y panel yn edrych ar ba ffactorau ddylai benderfynu sut mae cyllid amaethyddol yn cael ei ddyrannu ar draws y pedair gwlad.





Ar 3 Ionawr traddododd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **araith yng Nghynhadledd Flynyddol Ffermio Rhydychen** lle tynnodd sylw at strategaeth fwyd newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. O ran goblygiadau Brexit dim cytundeb, dywedodd 'mae'n ffaith annymunol ond anochel ... y byddai'r tariffau gweithredol ar gig eidion a chig defaid yn uwch na 40% - mewn rhai achosion yn llawer uwch na hynny'.

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) 2018** ar ffurf drafft. Nod y Bil yw mynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu amgylcheddol yn dilyn Brexit.

Mae agweddau ar y Bil drafft sy'n berthnasol i Gymru yn cynnwys cynigion ar gyfer egwyddorion amgylcheddol a Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, ond dim ond mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl. Gellid ymestyn cwmpas y Bil drafft i gynnwys meysydd datganoledig os yw Llywodraeth Cymru yn dewis mabwysiadu ymagwedd ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Disgwylir i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno ei Bil Amgylcheddol ym mis Medi 2019. Mae Senedd Ymchwil wedi cyhoeddi **erthygl blog ar y Bil drafft.**

## Pysgodfeydd

Ar 10 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ddatganiad i'r wasg yn annog y diwydiant pysgota i ddechrau paratoi ar gyfer cyflwyno tystysgrifau dal yn achos Brexit dim cytundeb.** Mae tystysgrifau dal yn dangos bod pysgod wedi cael eu dal yn unol â mesurau cadwraeth a rheoli sefydledig. Mae'n ofynnol i bob gwlad nad yw'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd gyflwyno tystysgrifau dal wrth fasnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd.

## Gwarchod natur

Ar 21 Ionawr, dywedodd y Prif Weinidog wrth Dŷ'r Cyffredin mewn datganiad ar **adael yr Undeb Ewropeaidd** y byddai telerau'r Cytundeb Ymadael Drafft yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig 'arwain y byd' ar safonau amgylcheddol.

## Gwastraff

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ganllawiau i fusnesau** sy'n cludo gwastraff i mewn ac allan o'r Undeb Ewropeaidd pe bai Brexit yn digwydd heb sefydlu cytundeb.

Mae swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ceisio **tawelu ofnau cwmnïau** (erthygl y tu ôl i fur talu) y byddai awdurdodau cymwys yr Undeb Ewropeaidd yn caniatáu i hysbysiadau cyfredol cludo gwastraff barhau ar ôl Brexit, ond mae pryderon yn parhau y gallai rhwystrau mewn porthladdoedd achosi tarfu dros dro. Noda ENDS Report ei fod ar ddeall y gallai rhai cwmnïau fod yn paratoi i waredu tanwydd sy'n deillio o sbwriel mewn safleoedd tirlenwi os byddant yn wynebu oedi. Ar hyn o bryd, mae'r Deyrnas Unedig yn anfon 3.6 miliwn tunnell o wastraff i wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, gyda chynrychiolwyr y sector yn rhybuddio y gallai diffyg cytundeb arwain at darfu difrifol.

## Caniatâd amgylcheddol

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2018** yw un o nifer fawr o Offerynnau Statudol sy'n cael eu hystyried ar lefel y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae'r rheoliadau yn dileu cyfeiriadau at gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau yn y rheoliadau caniatáu amgylcheddol, yn newid sut mae'r **Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol** yn cael ei gweithredu i ddiogelu'r dogfennau cyfeirio technoleg orau sydd ar gael (BREF) heb dderbyn y rhai fydd yn cael eu llunio gan yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, ac yn dileu cyfeiriad at warantau tarddiad ynni adnewyddadwy i adlewyrchu ymadawiad y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddodd ENDS Report **erthygl am y gwelliannau** (erthygl y tu ôl i fur talu), lle dywedodd eu bod yn cynnwys newidiadau radical ar gyfer y ffordd y gweithredir y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, cytunodd Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin (y Pwyllgor nithio) â Llywodraeth y Deyrnas Unedig nad oedd angen dadl yn Senedd y Deyrnas Unedig ar yr Offeryn Statudol hwn.





# 4. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 26 Tachwedd, yn y Ffair Aeaf, cyhoeddodd Lesley Griffiths, yn ei rôl fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gynllunio Ynni a Materion Gwledig ar y pryd (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig erbyn hyn) y **bydd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn parhau'n ddigyfnewid yn 2020**, gan roi rhywfaint o sicrwydd i ffermwyr mewn cyfnod ansicr. **Ailadroddodd y neges hon** yn y Cynulliad ar 28 Tachwedd. Mae hyn yn estyniad o flwyddyn ar ei **bwriad blaenorol** mai blwyddyn cynllun 2019 fyddai'r flwyddyn ddiwethaf y byddai'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn gweithredu.

Ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Lesley Griffiths **£80 miliwn i 'gefnogi ffermwyr sy'n wynebu heriau sylweddol Brexit'.** Dyrennir yr arian i Glastir, sef y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a'r Grant Busnes Fferm.

Ar 9 Ionawr, lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ddiweddaru cyfraith bwyd Cymru wrth baratoi ar gyfer Brexit.** Mae'r ymgynghoriad yn casglu barn ar y newidiadau sydd eu hangen i Offerynnau Statudol Cymru sy'n deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol mewn senario Brexit dim cytundeb. Mae'r Offerynnau dan sylw yn ymwneud â safonau marchnata bwyd, labelu a llaeth ysgol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Chwefror.

Ar 22 Ionawr cafwyd ddatganiad i'r Cynulliad gan Lesley Griffiths ar **oblygiadau Brexit dim cytundeb ar gyfer yr amgylchedd, amaethyddiaeth a physgodfeydd.** Yn y datganiad, trafodwyd materion a oedd yn cynnwys:

- Trosglwyddo deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth ddomestig;
- Masnachu mewn cig coch a physgod cregyn gyda'r Undeb Ewropeaidd;
- Mewnforion cemegol o'r Undeb Ewropeaidd;
- Mynediad at gyflenwad llafur yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y sector prosesu bwyd;
- Ailosod systemau cymeradwyo ac ardystio'r Undeb Ewropeaidd;
- Archwiliadau posibl ar y ffin ar gyfer anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid; a
- Lansio gwefan Llywodraeth Cymru - **Paratoi Cymru** - i ddarparu cyngor a gwybodaeth am baratoi ar gyfer Brexit dim cytundeb.

## Gwarchod natur

Ar 27 Tachwedd, nododd Llywodraeth Cymru ei phryderon penodol yn ei **hasesiad o'r Cytundeb Ymadael Drafft** (roedd yr un pryderon wedi cael eu hamlinellu gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog ar y pryd, mewn **datganiad i'r Cynulliad** ar 20 Tachwedd). Er bod y Cytundeb Ymadael Drafft yn cynnwys ymrwymiad y bydd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn atal unrhyw leihad yn lefel y warchodaeth amgylcheddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn 'credu'n gryf' y dylai'r Deyrnas Unedig ymrwymo i 'berthynas ddeinamig yn hytrach na cheisio sicrhau nad oes dirywiad'. Ceir rhagor o fanylion mewn **erthygl blog gan Senedd Ymchwil.**

## Pysgodfeydd

Ar 15 Tachwedd 2018 cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.** Mae'r Memorandwm yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Mae mwyafrif y Cymalau yn y Bil yn berthnasol i Gymru. Os bydd yn cael ei ddeddfu, bydd y Bil yn creu elfennau deddfwriaethol sylfaenol Fframwaith y Deyrnas Unedig ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd ar ôl Brexit.

Ar 10 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ar y Bil. Mae hyn yn cyfeirio at y diwygiadau i'r Bil a wnaed yng nghyfnod Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, a'r Cymal 39 newydd dilynol sy'n ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad y tu hwnt i 12 milltir ar y môr.

Nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y modd y drafftiwyd Cymal 18 (sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu dal ac ymdrech). Nodir yn y Memorandwm atodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn bod Cymal 18 yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl, ac felly nid yw cydsyniad yn ofynnol. Nodir yn y Memorandwm:

> ...nid yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [...] Gan fod y term "International Obligations" (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r fath, mae'r Cymal yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol ac felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Yn ei **llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion gwledig i ategu'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol,** dywed Lesley Griffiths ei bod yn bwriadu cyflwyno Memorandwm atodol pellach yn dilyn trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Dyddiad cau y Cynulliad ar gyfer adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yw 12 Chwefror. Mae manylion llawn Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig yn cael sylw yn y **crynodeb hwn o'r Bil gan Senedd Ymchwil**.

Ar 11 Ionawr **anogodd Lesley Griffiths y diwydiant pysgota i ddechrau paratoi ar gyfer Brexit dim cytundeb,** gan hyrwyddo nifer o ddigwyddiadau sioeau teithiol Brexit a physgodfeydd gan Lywodraeth Cymru.

Ar 14 Ionawr, cyn cyfarfod gyda chymheiriaid yn San Steffan, rhybuddiodd Lesley Griffiths y '**gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb gael effaith 'aruthrol' ar ddiwydiannau ffermio a physgota Cymru,** Tynnodd sylw at y ffaith bod '90% o allforion pysgod cregyn' yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd, ac y bydd y 'posibilrwydd o dariffau uchel os bydd Brexit yn digwydd heb gytundeb yn ychwanegu at gost allforio yn fwy byth.'

## Lles anifeiliaid

Ar 13 Tachwedd cafwyd ddatganiad yn y Cynulliad gan Lesley Griffiths ar **les anifeiliaid**. Dywedodd ei bod yn "hanfodol ein bod yn cynnal ein safonau a'n disgwyliadau", ac na fydd Llywodraeth Cymru "yn cyfaddawdu ar les anifeiliaid" ar ôl Brexit.

## Fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig

Ar 13 Tachwedd, cafwyd datganiad gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, ar **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a fframweithiau cyffredin**. Dywedodd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dod i'r casgliad nad oes angen cyflwyno unrhyw un o reoliadau Deddf Ymadael yr Undeb Ewropeaidd i 'rewi' pwerau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru er mwyn deddfu ar fframweithiau'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i beidio â dargyfeirio mewn ffyrdd a fyddai'n torri ar draws fframweithiau posibl yn y dyfodol.

## Offerynnau Statudol

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cyflwyno Offerynnau Statudol dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* er mwyn i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad eu nithio. Ar wefan y Pwyllgor ceir rhestr o'r **Offerynnau Statudol sydd wedi cael eu cyflwyno hyd yn hyn**, ac mae llawer ohonynt ym maes polisi amgylcheddol. **Disgwylir tua 50 o Offerynnau Statudol gan Lywodraeth Cymru.**

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno **datganiad ysgrifenedig** i roi gwybod i'r Cynulliad am reoliadau a wneir gan Weinidogion y Deyrnas Unedig mewn meysydd a ddatganolwyd o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Pan fo'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd gyflwyno **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.**





# 5. Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 10 Ionawr, fe wnaeth Fergus Ewing, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig, **ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth yr Alban** i gynnal cyllid Cynllun Ardaloedd Llai Ffafriol (LFASS) yr Undeb Ewropeaidd ar o leiaf 80 y cant ar gyfer 2020.

Ar 16 Ionawr, **ysgrifennodd Fergus Ewing at Michael Gove** ynghylch tariffau ar gyfer mewnforion bwyd-amaeth i'r Deyrnas Unedig. Yn y llythyr, cyflwynodd gynnig ar gyfer defnyddio cwotâu cyfraddau tariff wedi eu targedu.

## Pysgodfeydd

Ar 4 Rhagfyr, **ysgrifennodd Fergus Ewing at Lywodraeth y Deyrnas Unedig** yn gofyn am ddiwygiadau i Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig ynghylch cyfyngiadau cwota ac ymdrech, ardollau bwyd môr, cyllid ar gyfer cymunedau arfordirol a materion eraill.

Ar 7 Rhagfyr cyflwynodd Llywodraeth yr Alban **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig** gerbron Senedd yr Alban. Er bod Llywodraeth yr Alban yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol, mae'n dadlau bod angen cydsyniad pellach mewn perthynas â rhai cymalau, ac felly **nid oedd mewn sefyllfa i argymell cydsynio i'r Bil.**

# 6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 14 Tachwedd cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn dystiolaeth i randdeiliaid ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig** fel rhan o'i waith yn trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr o'r sector amaethyddol a oedd yn cwestiynu'r angen am y Bil a'r pwerau dirprwyedig sydd yn Atodlen 3 i'r Bil, ynghyd â phriodoldeb hynny, gan ddweud y gallai gyflwyno polisi amaethyddol newydd i Gymru mewn gwirionedd. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys:

- Prin fyddai'r cyfle i'r Cynulliad graffu neu ddylanwadu ar y Bil a pholisi yn y dyfodol;
- Nid yw cynlluniau wedi cael eu datblygu eto, a phrin yw'r asesiad o gost neu effaith; a
- Cyflwynwyd y Bil pan oedd Llywodraeth Cymru yn dal i ymgynghori ar gynigion ar gyfer polisi amaethyddol newydd a chynlluniau talu yn y dyfodol.

Ar 21 Tachwedd **ysgrifennodd Lesley Griffiths at y Pwyllgor** ynghylch y Bil. Dywedodd ei bod hi wedi cael trafodaethau cadarnhaol â Michael Gove ynghylch darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil ac i ba raddau maent yn bwerau a gedwir (gweler **erthygl blog Senedd Ymchwil ar y Bil** am wybodaeth gefndir).

Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn bosibl na fyddai angen diwygio'r Bil er mwyn datrys yr anghytundeb cyfansoddiadol ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd, ac y gallai fod yn bosibl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraethau Cymru ganfod ateb drwy gytundeb rhwng llywodraethau ynghylch sut dylid gweithredu'r darpariaethau presennol yn y Bil.

Dywedodd Lesley Griffiths ei bod yn obeithiol y gellir cyrraedd cytundeb, ac y bydd hi'n gallu argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil maes o law. Yn ddiweddarach, rhannodd **ohebiaeth bellach gan Michael Gove** (dyddiedig 10 Rhagfyr) gyda'r pwyllgor ar sut byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda'i gilydd ar gymal Sefydliad Masnach y Byd.





Ar 6 Rhagfyr, cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn dystiolaeth gyda Lesley Griffiths** ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig. Pan ofynnwyd a oedd hi'n hyderus y byddai Llywodraeth Cymru a'r sector amaethyddol yn barod i ddechrau trosglwyddo i'r cynllun rheoli tir ôl-Brexit yn 2020-21, dywedodd swyddog Lesley Griffiths:

> ...there won't be significant change in 2020. The change in 2021 would be gradual, relatively small scale. So, the things that people would need to adapt to early are likely to be relatively few, and the change increases over the following year. So, I think, thinking of 2020-21 as a sort of cliffedge, single change moment isn't the right way to approach it. This is the beginning of a transition period.

Cydnabu Lesley Griffiths y gallai'r gwahaniaethau posibl yn y gyfradd drosglwyddo yng Nghymru a Lloegr arwain at oblygiadau i ffermydd trawsffiniol a marchnad fewnol y Deyrnas Unedig. Esboniodd ei swyddog y gellid rheoli'r materion hyn drwy fframwaith cyffredin ar gyfer amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig.

Ar 4 Ionawr cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn cydsynio â'r darpariaethau yn y Bil, yn amodol ar amodau eang, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i'r Bil, ac y dylai roi ymrwymiadau amrywiol i'r Cynulliad (gweler yr adroddiad am fanylion yr amodau hyn).

Os na ellir bodloni'r amodau, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cyfyngu ar gydsyniad y Cynulliad i'r rhannau o'r Bil sy'n galluogi parhad cymorth ariannol ar ôl Brexit, nes gellir cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru.

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Ar 10 Ionawr **ysgrifennodd y Pwyllgor at Lesley Griffiths** ynghylch y drafft o Fil Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gofynnwyd yn y llythyr iddi nodi ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru.

## Pysgodfeydd

Mae'r Pwyllgor yn ymgymryd ag **ymchwiliad i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.** Ar 13 Rhagfyr lansiodd y Pwyllgor **ymgynghoriad i geisio barn rhanddeiliaid ar y Bil,** i lywio trafodaethau'r Pwyllgor ar y Memorandwm. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 9 Ionawr.

Ar 16 Ionawr cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn dystiolaeth ar y Memorandwm,** gan glywed gan academyddion, cynrychiolwyr y diwydiant pysgodfeydd, a chyrff anllywodraethol amgylcheddol.

Ar 24 Ionawr cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn gyda Lesley Griffiths ar y Memorandwm.** Holodd y Pwyllgor ynghylch datblygiad y Bil, pa mor briodol yw cynnwys y darpariaethau mewn meysydd datganoledig ym Mil y Deyrnas Unedig, a threfniadau cyllido ar ôl 2020. Gofynnwyd i Lesley Griffiths hefyd egluro sefyllfa'r **ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd sydd i ddod**. Cadarnhaodd y byddai'r ymgynghoriad yn ymdrin â pholisi morol a physgodfeydd, a'i bod yn debyg y byddai'n cael ei lansio ym mis Mawrth.

## Cadwraeth natur

Ar 16 Rhagfyr, lansiodd y Pwyllgor ymchwiliad dan y teitl **Bioamrywiaeth - Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.** Mae'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn un o ddwy elfen cynllun rheoli tir ôl-Brexit arfaethedig Llywodraeth Cymru a nodir yn ei **hymgynghoriad Brexit a'n Tir.** Daeth ymgynghoriad y Pwyllgor **i ben** ar 18 Ionawr.





# 7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 26 Tachwedd, yn ystod **sesiwn graffu** gyda'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, dywedodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru. Dywedodd:

> We will not be without a legislative framework that will allow us to design a system of support for agriculture in Wales… we've secured the immediate future through the UK Agriculture Bill, and the inter-governmental agreement has been very important in shaping those discussions. Nevertheless, for the longer term… an agriculture Bill brought forward by Welsh Ministers and shaped and debated on the floor of the National Assembly will be needed.

Ar 29 Tachwedd cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **ei adroddiad ar oblygiadau'r Cytundeb Ymadael Drafft i Gymru**. Mae Adran 3 yr adroddiad yn trafod amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd.

Ar 11 Rhagfyr atebodd Lesley Griffiths **gwestiynau yn y Cynulliad** ynghylch y Polisi Amaethyddol Cyffredin, y Cynllun Taliadau Sylfaenol ac **ymgynghoriad Brexit a'n tir** Llywodraeth Cymru.

Ar 10 Rhagfyr cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei **adroddiad ar ba mor barod yw sector bwyd a diod Cymru ar gyfer Brexit** (PDF 185KB). Gwnaeth y Pwyllgor dri argymhelliad ym meysydd strategaeth fwyd ôl-Brexit, Dynodiadau Daearyddol (h.y. enwau bwyd a ddiogelir) a lliniaru effeithiau Brexit dim cytundeb ar gyflenwadau bwyd. Atebodd Llywodraeth Cymru ar 22 Ionawr, **gan dderbyn argymhellion y Pwyllgor** (PDF 214KB).

Ar 29 Ionawr bu'r Cynulliad yn **trafod yr adroddiad hwn ac adroddiadau eraill y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar fod yn barod ar gyfer Brexit.** Cyhoeddodd Senedd Ymchwil **flog** cyn y ddadl.

Ar 4 Ionawr, **cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad** ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig. Dywed y Pwyllgor ei fod yn bryderus na wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno ei Fil ei hun i'r Cynulliad graffu arno. Dywed, nes ceir ymateb gan Lywodraeth Cymru, nad yw mewn sefyllfa i lunio barn ar y cwestiwn a ddylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad i gymalau'r Bil y cyfeirir atynt yn y Memorandwm.

### Pysgodfeydd

Ar 21 Ionawr cymerodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol **dystiolaeth gan Lesley Griffiths ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.** Bu'r Pwyllgor yn archwilio priodoldeb y darpariaethau yn y Bil, gan gynnwys y pwerau deddfu a gwneud rheoliadau, a'r rhesymeg dros alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig.

### Lles anifeiliaid

Ar 21 Tachwedd ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ***Reoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019 yn ystod ei waith nithio ar Offerynnau Statudol Brexit.*** Diben y diwygiadau hyn, ym marn Llywodraeth Cymru, yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol yn dilyn Brexit.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i fod o'r farn ei bod yn bosibl bod y rheoliadau'n mynd ymhellach na dim ond mynd i'r afael â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir. Am y rheswm hwnnw, argymhellodd yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru godi'r rheoliadau i'r weithdrefn gadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol fel y cynigiwyd. Dyma'r Offeryn Statudol cyntaf, a'r unig un, i gael ei godi i'r weithdrefn gadarnhaol yn ystod y broses nithio (ar adeg ysgrifennu).





## 8. Camau gweithredu eraill gan ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig

### Ansawdd aer

Ar 22 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ***Reoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2018***. Mae'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth ddomestig bresennol, sy'n deddfu cydrannau'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Nenfydau Allyriadau Cenedlaethol yn ogystal â darnau eraill o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod mewn grym ar ôl Brexit. Cyflwynwyd y rheoliadau gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 21 Ionawr o dan y weithdrefn negyddol.

### Amaethyddiaeth a bwyd

Cwblhaodd Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig gyfnod Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd, ac mae **Bil diwygiedig wedi cael ei gyhoeddi.** Mae un gwelliant yn ychwanegu darpariaethau ar yr ardoll cig coch at y Bil (Rhan 8 newydd). **Cyflwynwyd y gwelliant g**an George Eustice, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ynghyd â dau Aelod o'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus. Mae hyn yn dilyn cais Lesley Griffiths i gynnwys pwerau yn ymwneud ag **ailddosbarthu'r ardoll cig coch** ar wyneb y Bil.

Mae Atodlen y Bil ar gyfer Cymru (Atodlen 3) wedi cael ei diwygio yng nghyfnod y Pwyllgor Bil Cyhoeddus i gynnwys pŵer newydd i ddarparu ar gyfer parhad y Cynllun Taliad Sylfaenol y tu hwnt i 2020 (Paragraff 8, Rhan 2 newydd). Cyflwynwyd y **gwelliant** gan George Eustice ar 13 Tachwedd ac fe'i **trafodwyd gan y Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar 15 Tachwedd.** Mae'r gwelliant yn adlewyrchu gwelliant yn yr Atodlen gyfatebol ar gyfer Lloegr.

Ar 14 Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad ar **gynnydd Defra o ran Brexit.**

Ar 27 Tachwedd cyhoeddodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **ei adroddiad ar graffu ar y Bil Amaethyddiaeth** (PDF 466KB).

Ar 28 Tachwedd cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Ty'r Cyffredin **sesiwn dystiolaeth lafar** gyda Michael Gove.

Ar 20 Rhagfyr cynhaliodd Tŷ'r Arglwyddi ddadl ar **Brexit: Bwyd Iach a Maethlon.**

Ar 9 Ionawr, cymerodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **dystiolaeth lafar fel rhan o'i ymchwiliad i 'Brand Britain': Hyrwyddo a Marchnata Bwyd a Diod Prydain.**

Ar 12 Tachwedd cyhoeddodd Pwyllgor Economi Gwledig a Chysylltedd Senedd yr Alban ei adroddiad ar y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig.**

Ar 4 Rhagfyr cymerodd **Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir Senedd yr Alban dystiolaeth** ar Brexit a'r amgylchedd gan Roseanna Cunningham, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir, a Fergus Ewing, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig.

Ar 10 Ionawr **cynhaliwyd dadl yn Senedd yr Alban ar bolisi a chymorth gwledig yn y dyfodol ar ôl Brexit.**

## Ynni a newid yn yr hinsawdd

Ar 4 Rhagfyr, ysgrifennodd y Gweinidog dros Ynni a Thwf Glân, Claire Perry, at Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi i **ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd, y Farchnad Ynni Fewnol, ymchwil i ynni ac offerynnau statudol** (PDF 336KB) ar ôl Brexit. Ar 19 Rhagfyr, **ymatebodd Cadeirydd y Pwyllgor, Arglwydd Teverson, i'r Gweinidog** (PDF 248KB).

## Pysgodfeydd

Ar 15 Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y **Bil Pysgodfeydd [et al]**.

Cafodd Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig ei **ail ddarlleniad** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Tachwedd. Mae'r Bil yn cefnogi'r broses o symud i ffwrdd o **Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin** yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig reoli ei dyfroedd ei hun, fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS)**.

Dywedodd Michael Gove y bydd y ddeddfwriaeth yn golygu y bydd pwerau'n symud i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gan ddweud y bydd yn 'gwasgaru pŵer ac yn cryfhau datganoli'.





Ystyriwyd y Bil gan **Bwyllgor Bil Cyhoeddus** Tŷ'r Cyffredin rhwng 4 a 17 Rhagfyr. Mewn **llythyr** at y Pwyllgor Bil Cyhoeddus, dyddiedig 5 Rhagfyr, rhoddodd George Eustice wybod i'r Pwyllgor am nifer o welliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Un gwelliant o'r fath yw Cymal newydd i ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod yn y parth alltraeth. Esbonnir yn y llythyr:

> The Welsh Assembly does not have legislative competence for sea fisheries in the offshore zone, which is the area of sea outside the territorial seas but within the Exclusive Economic Zone – although the Welsh Government do have executive competence in the offshore zone as these have been devolved previously.

Nodir yn y llythyr y byddai'r gwelliant, pe bai'n cael ei basio, yn dod â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unol â Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, sydd eisoes yn meddu ar gymhwysedd ar gyfer pysgodfeydd yn eu hardaloedd ar y môr ac ar y glannau.

Ar 13 Rhagfyr cyhoeddodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin ddogfen dan y teitl **Brexit and Northern Ireland: fisheries: Government Response to the Committee's Fourth Report**.

Ar 18 Rhagfyr **cyhoeddwyd y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod cyfnod y Pwyllgor Bil Cyhoeddus.**

Ar 20 Ionawr cyhoeddodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin adroddiad dan y teitl **Beyond the Common Fisheries Policy: Scrutiny of the Fisheries Bill**. Roedd yr adroddiad yn benllanw ei ymchwiliad i gwmpas, darpariaethau a phwerau arfaethedig y Bil.

Ar 13 Rhagfyr ysgrifennodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin at Michael Gove **gan geisio rhagor o fanylion ar strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer pysgodfeydd Gogledd Iwerddon ar ôl Brexit.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn barod i wneud penderfyniadau ar bolisi pysgodfeydd ar gyfer Gogledd Iwerddon ar ôl Brexit os na fydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar waith i wneud hynny.

Ar 9 Ionawr cynhaliodd Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin **wrandawiad untro** i archwilio **goblygiadau Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig o ran yr Alban,** gan gynnwys materion fel cwotâu ar gyfer cychod pysgota, mynediad at ddyfroedd yr Alban a chynaliadwyedd amgylcheddol. Clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr

pysgotwyr, cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd môr yr Alban, a chorff anllywodraethol amgylcheddol, cyn holi Gweinidogion pysgodfeydd y Deyrnas Unedig a'r Alban (George Eustice a Fergus Ewing yn y drefn honno).

Ar 11 Rhagfyr, **cynhaliodd Senedd yr Alban ddadl ar drafodaethau pysgodfeydd.**

Ar 16 Ionawr, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban ei adroddiad ar **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.**

## Lles anifeiliaid

Ar 29 Tachwedd, **cynhaliwyd dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar Gytundebau Masnach: Lles Amgylcheddol ac Anifeiliaid.** Dywedodd David Rutley, yr Is-ysgrifennydd Seneddol Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 'ni fyddwn ni'n glastwreiddio ein safonau o ran diogelwch bwyd, lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd fel rhan o unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol'.

## Fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig

Mae Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin yn ymgymryd ag ymchwiliad i'r **berthynas rhwng Llywodraethau'r Alban a'r Deyrnas Unedig.** Mae ei gylch gorchwyl yn cwmpasu effeithiolrwydd peirianwaith rhynglywodraethol fel y Cydbwyllgor Gweinidogol, a fydd Brexit yn arwain at newidiadau i hyn, yn arbennig ynghylch fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig, ac a ellir dysgu gwersi gan wledydd eraill.





# 9. Camau gweithredu eraill

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 28 Ionawr ysgrifennodd Prif Weithredwyr nifer o fanwerthwyr bwyd blaenllaw at Aelodau Seneddol i **fynegi eu pryderon ynghylch Brexit dim cytundeb** (PDF 213 KB). Nodir yn y llythyr y bydd Brexit dim cytundeb yn debygol o gynyddu prisiau bwyd a lleihau amrywiaeth ac ansawdd y cynhyrchion sydd ar gael i ddefnyddwyr.

## Ynni a newid yn yr hinsawdd

Nodir yn **hysbysiad paratoi** Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n cynnal pris ar allyriadau carbon ar lefel bresennol cynllun masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yn fras drwy dreth carbon o £16 y dunnell, cam a **groesawyd yn eang** (erthygl y tu ôl i fur talu) gan ymgyrchwyr ar yr hinsawdd a diwydiant.

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cymryd camau i sicrhau sefydlogrwydd ei gynllun masnachu allyriadau drwy **atal y Deyrnas Unedig** rhag cymryd rhan mewn arwerthiannau trwyddedau a dyraniadau rhydd o lwfansau allyriadau. Mae ENDS report wedi dweud bod un dadansoddwr o'r farchnad wedi dweud wrth **Reuters** y gallai prisiau carbon yr Undeb Ewropeaidd ostwng yn y tymor byr oherwydd "UK installations could be expected to offload their surplus allowances and unwind hedges". Mae grwpiau'r sector ynni wedi parhau'n gymharol obeithiol ynghylch effaith dim cytundeb.

# 10. Ffynonellau allweddol eraill

## Ansawdd aer

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Air Quality: Cutting through the haze**, Tachwedd 2018

## Amaethyddiaeth a bwyd

Senedd Ymchwil, **Cynlluniau rheoli tir yn seiliedig ar ganlyniadau: dadansoddiad o astudiaeth achos**, Tachwedd 2018

Senedd Ymchwil, **Paratoi ar gyfer Brexit**, Ionawr 2019

Senedd Ymchwil, **Beth yw rheolau Sefydliad Masnach y Byd ynghylch amaethyddiaeth?,** Ionawr 2019.

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe), **Land use policy and public goods**, Tachwedd 2018

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, **Polisi Gwledig yng Nghymru ar ôl Brecsit**, Tachwedd 2018

Y Sefydliad Polisi Ewropeaidd ac Amgylcheddol, **Institute Emerging agricultural policy frameworks in the UK,** Tachwedd 2018

Y Deyrnas Unedig mewn Undeb sy'n Newid, **Taking the bull by the horns? progress of the UK Agriculture Bill**, Rhagfyr 2018

NFU, **Joint letter from the Presidents of the UK Farming Unions on the prospect of a 'No Deal' Brexit**, Ionawr 2019

NFU Cymru, **Brexit Update**, Ionawr 2019

## Ynni a newid yn yr hinsawdd

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit: energy and climate change**, Tachwedd 2018

SPICe, **Climate Change and Agriculture: How can Scottish Agriculture Contribute to Climate Change Targets?,** Tachwedd 2018

Sefydliad Materion Cymreig, **Re-energising Wales: A Framework for Action: Next steps for Regulatory and Policy Powers over Energy in Wales**, Tachwedd 2018





## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Senedd Ymchwil, **Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit: Bil drafft y Deyrnas Unedig a Chymru**, Ionawr 2019

Swyddfa Seneddol y Gwyddorau a Thechnoleg (POST), **EU Environmental Principles**, Tachwedd 2018

Y Gynghrair Werdd, **The government's guessing game on future environmental governance**, Tachwedd 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **The Environment (Principles and Governance) Bill: An overview and four unanswered questions**, Rhagfyr 2018

Y Gynghrair Werdd, **The Environment Bill: strong ambitions, but the get out clauses need to go**, Rhagfyr 2018

Coleg Prifysgol Llundain, **The New Office for Environmental Protection: Scrutinising and Enforcing Environmental Law after Brexit**, Ionawr 2019

## Pysgodfeydd

Senedd Ymchwil, **Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig a Chymru,** Tachwedd 2018.

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **UK Fisheries Bill 2017-2019**, Rhagfyr 2018

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Fisheries Management in the UK**, Rhagfyr 2018

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Fisheries: Brexit Negotiations**, Rhagfyr 2018

SPICe, **UK Fisheries Bill**, Rhagfyr 2018

SPICe, **Preparing for a no-deal Brexit: Commercial fishing**, Tachwedd 2018

SPICe, **How are fishing quotas set? Stage 2: coastal state negotiations**, Rhagfyr 2018

SPICe, **How are fishing quotas set? Stage 3: The EU December Council,** Ionawr 2019

Llywodraeth Cymru, **Bwletin Pysgodfeydd a Brexit**, Ionawr 2019

Cyswllt Amgylchedd Cymru, **WEL Briefing on UK Fisheries Bill,** Tachwedd 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **The Fisheries Bill: What does it tell us about post-Brexit fisheries policy?**, Tachwedd 2018

Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliadau Pysgotwyr, **Fishing Centre Stage**, Rhagfyr 2018

Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliadau Pysgotwyr, **Withdrawal Agreement**, Rhagfyr 2018

Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliadau Pysgotwyr, **Fisheries Bill**, Ionawr 2019

Cyswllt Amgylchedd Cymru a Greener UK**, LCM on UK Fisheries Bill,** Ionawr 2019

## Gwastraff

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **Is Defra's Waste Strategy Brexit-proof?,** Ionawr 2019

## Fframweithiau cyffredin y Deyrnas Unedig

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **The Supreme Court's decision on the Scottish Continuity Bill: Implications for environmental governance,** Rhagfyr 2018

## Arall

Senedd Ymchwil, **Beth yw goblygiadau'r datganiad gwleidyddol ar Brexit i Gymru?,** Tachwedd 2018

Senedd Ymchwil, **Beth mae Cytundeb Ymadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i Gymru?**, Tachwedd 2018.

Senedd Ymchwil, **Brexit - 100 diwrnod i fynd,** Rhagfyr 2018

Senedd Ymchwil, **Paratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb: Y sefyllfa ddiweddaraf,** Ionawr 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit and chemicals regulation (REACH)**, Tachwedd 2018

SPICe, **Preparing for a no-deal Brexit: Chemicals and REACH regulations**, Tachwedd 2018

Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon, **Brexit and Northern Ireland: A reading list** (PDF, 2.37KB), Ionawr 2019





Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Defra), **Measuring environmental change – draft indicators framework for the 25 Year Environment Plan: Draft for discussion**, Rhagfyr 2018

Cyfeillion y Ddaear, **Take no-deal Brexit off the table for the environment's sake**, Ionawr 2019

Cyfeillion y Ddaear, **Why a no-deal Brexit is no good for the environment,** Ionawr 2019

Greener UK, **Parliamentary briefing ahead of the 'meaningful vote': analysis based on green benchmarks for Brexit (updated Jan 2019)**, Ionawr 2019

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **The environment in the Brexit deal: A brief guide,** Ionawr 2019

Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, **Environmental planning after Brexit**, Ionawr 2019

Environmental Politics, **Is the trajectory of European Union environmental policy less certain?**, Ionawr 2019

Environmental Politics, **De-Europeanising or disengaging? EU environmental policy and Brexit**, Ionawr 2019

RSPB, **Why a 'no deal' Brexit increases risks to the environment**, Ionawr 2019

Journal of European Public Policy, **EU environmental policy in times of crisis**, Ionawr 2019

Cyfeillion y Ddaear, **Are we on track for a green Brexit?,** Rhagfyr 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **May survives confidence vote: Where now for the environment?,** Rhagfyr 2018

Sefydliad Polisi Ewropeaidd ac Amgylcheddol, **The Withdrawal Agreement and Political Declaration: some environmental implications,** Rhagfyr 2018

Broadway Initiative, **Blueprint for an Environment Act,** Rhagfyr 2019

Y Gynghrair Werdd, **Funding nature's recovery How new public spending can unlock private investment**, Tachwedd 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **Environmental commitments in the Withdrawal Agreement**, Tachwedd 2018

Y Deyrnas Unedig mewn Undeb sy'n Newid, **Does the Withdrawal Agreement pass the green Brexit test?**, Tachwedd 2019

Y Gynghrair Werdd, **What does the Withdrawal Agreement say about the environment?,** Tachwedd 2018

Cyfeillion y Ddaear, **What we need from a Westminster Environment Bill**, Hydref 2018